**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
**—**
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol
Llywodraeth Cymru

26 Medi 2023

Annwyl Mick

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): cyd-ddibyniaeth â'r Bil cwotâu rhywedd a ddisgwylir

Yn ei ddatganiad ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar 27 Mehefin 2023, cyhoeddodd y Prif Weinidog, yn ogystal â Bil i ddiwygio maint, system etholiadol a threfniadau ffiniau'r Senedd, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil i gyflwyno cwotâu rhywedd ar lefel ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd (y "Bil cwotâu rhywedd"). Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ("Bil SC(ME)") yn nodi bod Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cynnwys darpariaeth mewn deddfwriaeth yn y dyfodol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth mewn perthynas ag ymgeiswyr i'r Senedd.

Er y bydd y Bil cwotâu rhywedd yn ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân, a fydd yn amodol ar waith craffu ynddo'i hun maes o law, mae'n anochel y bydd rhywfaint o gyd-ddibyniaeth rhwng unrhyw Fil o'r fath a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae hyn oherwydd y bydd angen i unrhyw gwotâu ar lefel ymgeiswyr a gyflwynir weithredu o fewn cyd-destun y system etholiadol, ffiniau a darpariaethau datgymhwyso y mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ceisio eu sefydlu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech:

1) Gadarnhau a fydd drafft o'r Bil cwotâu rhywedd yn cael ei gyhoeddi cyn ei gyflwyno'n ffurfiol. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Bil drafft, a wnewch chi gadarnhau'r rhesymau dros hyn, a nodwch a fyddai modd rhannu copi ymlaen llaw o'r Bil â ni, yn gyfrinachol, cyn ei gyflwyno'n ffurfiol.
2) Rhoi rhagor o wybodaeth i ni am amcanion y Bil a'r dull deddfwriaethol arfaethedig y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn eu dilyn o ran Bil cwotâu rhywedd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y canlynol, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall yr ydych yn ei hystyried yn berthnasol:

a. Diben cyflwyno cwotâu rhywedd ar lefel ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd, gan gynnwys ystyried y nod(au) y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni drwy eu cyflwyno.

b. Y polisi arfaethedig a gaiff ei roi ar waith yn y Bil cwotâu rhywedd, gan gynnwys dyluniad a'r gweithrediad disgwyliedig o ran cwotâu rhywedd ar lefel ymgeiswyr, a sut y gorfodir cydymffurfiaeth.

c. Asesiad o'r goblygiadau y gellir yn rhesymol ddisgwyl a fydd i'r polisi arfaethedig o ran gweithredu a rhoi'r system etholiadol a gynigir ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar waith, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyflwyno rhestrau ymgeiswyr i swyddogion canlyniadau etholaeth (adran 7(1)), hyd rhestrau ymgeiswyr (adran 7(3)), a chymhwysedd ymgeiswyr i lenwi seddi gwag (adran 9)).

d. Gwybodaeth am sut yr ystyriwyd goblygiadau o'r fath wrth asesu'r effeithiau ariannol a'r effeithiau eraill yn y Memorandwm Esboniadol ar y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch pa rai o'r asesiadau ariannol neu'r asesiadau effaith eraill a fyddai wedi bod yn sylweddol wahanol pe bai darpariaeth ynghylch cwotâu rhywedd wedi'i chynnwys ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ac, os felly, sut.

Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 3 Tachwedd 2023.

Anfonir copïau o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac at y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, gan ein bod yn deall mai hi fydd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil cwotâu rhywedd.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Biliau Diwygio

cc Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Huw Irranca Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.